**The Genetically Modified and Novel Foods (Labelling) (Wales) Regulations 2000 / [National Assembly for Wales].**

**Contributors**

Wales.
Wales. National Assembly.

**Publication/Creation**

[Place of publication not identified] : Stationery Office, [2000], ©2000.

**Persistent URL**

https://wellcomecollection.org/works/kdrt5gpd

**License and attribution**

You have permission to make copies of this work under an Open Government license.

This licence permits unrestricted use, distribution, and reproduction in any medium, provided the original author and source are credited.

Image source should be attributed as specified in the full catalogue record. If no source is given the image should be attributed to Wellcome Collection.

wellcome collection

Wellcome Collection
183 Euston Road
London NW1 2BE UK
T +44 (0)20 7611 8722
E library@wellcomecollection.org
https://wellcomecollection.org

WAL

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1925 (Cy. 134 )

## BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi -

(a) Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1139/98 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (CE) Rhif 49/2000) ynghylch gorfod dangos, ar labelau bwydydd penodol a gynhyrchwyd o organeddau a addaswyd yn enetig, fanylion heblaw'r rhai y darperir ar eu cyfer yng Nghyfarwyddeb 79/112/CEE;

(b) Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 50/2000 ar labelu bwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cynnwys ychwanegion a chyflasynnau a addaswyd yn enetig neu sydd wedi'u cynhyrchu o organeddau a addaswyd yn enetig; ac

(c) y gofynion labelu yn Erthygl 8(1) o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 258/97 ynghylch bwydydd newydd a chynhwysion bwyd newydd (fel y'u darllenir gydag Erthyglau 1 a 2 o'r Rheoliad hwnnw).

National Assembly for Wales

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1925 (W. 134 )

## FOOD, WALES

## The Genetically Modified and Novel Foods (Labelling)(Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations, which apply to Wales only, make provision for the enforcement of -

(a) Council Regulation (EC) No.1139/98 (as amended by Commission Regulation (EC) No. 49/2000) concerning the compulsory indication, on the labelling of certain foodstuffs produced from genetically modified organisms, of particulars other than those provided for in Directive 79/112/EEC;

(b) Commission Regulation (EC) No. 50/2000 on the labelling of foodstuffs and food ingredients containing additives and flavourings that have been genetically modified or have been produced from genetically modified organisms; and

(c) the labelling requirements in Article 8(1) of Council Regulation (EC) No. 258/97 concerning novel foods and novel food ingredients (as read with Articles 1 and 2 of that Regulation).

WELLCOME TRUST INFORMATION SERVICE
04 OCT 2000
ACC. No. PAL13 Wal
CLASS:



PAL13
22501071782

Bwydydd a chynhwysion bwyd sydd i'w cyflwyno fel y cyfryw i'r prynwr terfynol yw'r cynhyrchion yr ymdrinnir â hwy gan Reoliad 1139/98, ar ôl iddynt gael eu cynhyrchu'n gyfan gwbl neu'n rhannol o ffa soia a addaswyd yn enetig neu indrawn a addaswyd yn enetig, fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 1 o'r Rheoliad hwnnw. Estynnodd Rheoliad 49/2000 gwmpas Rheoliad 1139/98 i gynnwys gwerthiannau i fasarlwywyr a phennodd drothwy *isaf* o 1% ar gyfer difwyno cynhwysyn yn ddamweiniol â deunydd sy'n deillio o organeddau a addaswyd yn enetig. Mae Rheoliad 50/2000 yn gymwys hefyd yn achos bwyd a chynhwysion bwyd sydd wedi'u bwriadu ar gyfer prynwyr terfynol a masarlwywyr. Mae Rheoliadau 1139/98, fel y'u diwygiwyd, a Rheoliad 50/2000 yn cynnwys darpariaethau trosiannol.

Diben y gofynion labelu yn Rheoliad 258/97 yw sicrhau bod y prynwr terfynol yn cael gwybod –

(a) am unrhyw nodwedd neu briodoledd bwyd sy'n peri bod bwyd newydd neu gynhwysyn bwyd newydd yn peidio â chyfateb mwyach i fwyd neu gynhwysyn bwyd presennol;

(b) am bresenoldeb deunydd yn y bwyd newydd neu'r cynhwysyn bwyd newydd nad yw'n bresennol mewn bwyd cyfatebol presennol ac a all fod ag oblygiadau ar gyfer iechyd rhannau penodol o'r boblogaeth neu achosi pryderon moesegol; ac

(c) am bresenoldeb organedd a addaswyd yn enetig.

Gwnaed Rheoliadau 1139/98, fel y'u diwygiwyd, a 50/2000 yn unol ag Erthygl 4(2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 79/112/CEE ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynghylch labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd. Yn unol ag Erthyglau 11 a 13 o'r Gyfarwyddeb honno, mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys -

(a) esemptiad o'r angen i ddodi'r manylion a fynnir gan y Rheoliadau hynny o eiddo'r CE ar y label yn achos mân becynnau a photeli gwydr penodol sydd wedi'u marcio'n annileadwy (rheoliad 3(4)); a

(b) darpariaeth ynglŷn â dull y marcio neu'r labelu yn achos y manylion a fynnir gan y Rheoliadau hynny (rheoliadau 4 i 6).

Yn ychwanegol at Erthygl 12 o'r Gyfarwyddeb honno, mae'r Rheoliadau hyn -

(a) yn caniatáu trefniadau labelu amgen yn lle'r manylion a fynnir gan y Rheoliadau hynny o eiddo'r CE mewn achosion lle bydd safleoedd priodol yn gwerthu i'r prynwr terfynol fwyd sydd wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol neu sydd heb ei ragbacio (rheoliad 5); a

(b) yn cynnwys trefniadau trosiannol ynglŷn â

The products covered by Regulation 1139/98 are foods and food ingredients which are to be delivered as such to the final consumer, having been produced in whole or in part from genetically modified soya beans or genetically modified maize, as referred to in Article 1 of that Regulation. Regulation 49/2000 extended the scope of Regulation 1139/98 to cover sales to mass caterers and established a *minimum* threshold of 1% for the accidental contamination of an ingredient with material derived from genetically modified organisms. Regulation 50/2000 also applies in the case of food and food ingredients intended for final consumers and mass caterers. Regulations 1139/98, as amended, and Regulation 50/2000 contain transitional provisions.

The labelling requirements in Regulation 258/97 are to ensure the final consumer is informed -

(a) of any characteristic or food property rendering a novel food or novel food ingredient no longer equivalent to an existing food or food ingredient;

(b) of the presence in the novel food or novel food ingredient of material which is not present in an existing equivalent foodstuff and which may have implications for the health of certain sections of the population or give rise to ethical concerns; and

(c) of the presence of a genetically modified organism.

Regulations 1139/98, as amended, and 50/2000 were made pursuant to Article 4(2) of Council Directive 79/112/EEC on the approximation of the laws of the Member States relating to the labelling, presentation and advertising of foodstuffs. Pursuant to Articles 11 and 13 of that Directive, these Regulations contain -

(a) an exemption from the need to be labelled with the particulars required by those EC Regulations in the case of small packages and certain indelibly marked glass bottles (regulation 3(4)); and

(b) provision as to the manner of marking or labelling in the case of the particulars required by those EC Regulations (regulations 4 to 6).

Further to Article 12 of that Directive, these Regulations -

(a) allow alternative labelling arrangements instead of the particulars required by those EC Regulations in the case of sales to the final consumer by appropriate premises of food which is prepacked for direct sale or not prepacked (regulation 5); and

(b) contain transitional arrangements in respect of sales of such food to the final consumer or to a

gwerthu bwyd o'r fath i'r prynwr terfynol neu i fasarlwyydd (rheoliad 13).

Mae'r rheoliadau hyn hefyd -

(a) yn creu tramgwyddau ac yn rhagnodi cosb (rheoliad 7), yn cynnwys esemptiadau (rheoliad 3) ac yn pennu awdurdodau gorfodi (rheoliad 8);

(b) yn darparu amddiffyniad ynglŷn ag allforion, yn unol ag Erthyglau 2 a 3 o Gyfarwyddeb y Cyngor 89/397/CEE (OJ Rhif L186, 30.6.89, t.23) ar y dull swyddogol o reoli bwydydd, fel y'u darllenir gyda'r nawfed cronicliad i'r Gyfarwyddeb honno (rheoliad 9);

(c) yn ymgorffori darpariaethau penodedig Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (rheoliad 10); ac

(ch) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall ynglŷn â Chymru (rheoliadau 11 a 12).

mass caterer (regulation 13).

These regulations also -

(a) create offences and prescribe a penalty (regulation 7), contain exemptions (regulation 3) and specify enforcement authorities (regulation 8);

(b) provide a defence in relation to exports, in accordance with Articles 2 and 3 of Council Directive 89/397/EEC (OJ No. L186, 30.6.89, p.23) on the official control of foodstuffs, as read with the ninth recital to that Directive (regulation 9);

(c) incorporate specified provisions of the Food Safety Act 1990 (regulation 10); and

(d) make consequential amendments of other legislation in relation to Wales (regulations 11 and 12).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1925 (Cy. 134 )

## BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *14 Gorffennaf 2000* |
| *Yn dod i rym* | *25 Gorffennaf 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 6(4), 16(1)(e) ac (f), 17, 18(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**a**), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000, deuant i rym ar 25 Gorffennaf 2000 a byddant yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.**-(1) Yn y Rheoliadau hyn.-

mae "bisgedi" (*"biscuits"*) yn cynnwys wafferi, bisgedi caled, torthau ceirch a bara croyw;

mae i "bwyd newydd", "cynhwysyn bwyd newydd" a "lle ar y farchnad" yr un ystyr â "novel food", "novel food ingredient" a "place on the market" yn Rheoliad 258/97;

(a) 1990 p.16; mae swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" yn arferadwy bellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Diwygiwyd adran 6(4)(a) o'r Ddeddf gan Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p.40), Atodlen 9, paragraff 6. Ychwanegwyd adran 48(4A) gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28), Atodlen 5 paragraff 21.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1925 (W. 134 )

## FOOD, WALES

## The Genetically Modified and Novel Foods (Labelling) (Wales) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *14th July 2000* |
| *Coming into force* | *25th July 2000* |

The National Assembly for Wales, in the exercise of powers conferred by sections 6(4),16(1)(e) and (f), 17, 18(1), 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(**a**), after having regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency, and after consultation in accordance with section 48(4) of that Act, makes the following Regulations:

### Citation, commencement and application

**1.** These Regulations may be cited as the Genetically Modified and Novel Foods (Labelling) (Wales) Regulations 2000, shall come into force on 25 July 2000 and shall apply to Wales.

### Interpretation

**2.**-(1) In these Regulations -

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Food Safety Act 1990;

"biscuits" (*"bisgedi"*) includes wafers, rusks, oatcakes and matzos;

"confectionery product" (*"cynnyrch cyffeithiol"*) means any item of chocolate confectionery or sugar confectionery;

(a) 1990 c.16; functions formerly exercisable by "the Ministers" are now exercisable by the National Assembly for Wales pursuant to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Section 6(4)(a) of the Act was amended by the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (c.40), Schedule 9, paragraph 6. Section 48(4A) was added by the Food Standards Act 1999 (c.28), Schedule 5 paragraph 21.

ystyr "Cyfarwyddeb 79/112" (*"Directive 79/112"*) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 79/112/CEE(**a**) ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynglŷn â labelu, cyflwyno a hysbysebu bwydydd, fel y'i diwygiwyd (i'r graddau y mae'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn) gan Gyfarwyddeb y Cyngor 86/197/CEE(**b**) a Chyfarwyddeb y Cyngor 89/395/CEE(**c**);

ystyr "cyffaith blawd" (*"flour confectionery"*) yw unrhyw fwyd wedi'i goginio sy'n barod i'w fwyta heb ei baratoi ymhellach (heblaw ei aildwymo), y mae grawnfwyd mâl yn gynhwysyn sy'n nodweddiadol ohono, gan gynnwys teisennau brau, sbwnjis, cramwyth, myffins, macarŵns, rataffias, toes a chasys toes ac mae'n cynnwys hefyd *meringues*, *petits fours* a thoes a chasys toes sydd heb eu coginio, ond nid yw'n cynnwys bara, *pizzas*, bisgedi, bara crimp, bara gwastad allwthiedig nac unrhyw fwyd sy'n cynnwys llenwad y mae unrhyw gaws, cig, syrth, pysgod, pysgod cregyn, deunydd protein llysieuol neu ddeunydd protein microbig yn gynhwysyn ynddo;

ystyr "cynnyrch cyffeithiol" (*"confectionery product"*) yw unrhyw eitem o gyffaith siocled neu gyffaith siwgr;

ystyr "cynnyrch cyffeithiol ffansi" (*"fancy confectionery product"*) yw unrhyw gynnyrch cyffeithiol ar ffurf ffigur, anifail, sigarèt neu wy neu ar unrhyw ffurf ffansi arall;

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "gwerthu" (*"sell"*) yn cynnwys cynnig i'w werthu neu ddangos i'w werthu neu ei gael mewn meddiant i'w werthu, a dehonglir "gwerthu" (*"sale"*) yn unol â hynny.

mae "iâ bwytadwy" (*"edible ice"*) yn cynnwys hufen iâ, iâ dwr ac iâ ffrwythau, p'un ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad ag unrhyw fwyd tebyg;

ystyr "manylion GMO" (*"the GMO particulars"*) yw'r manylion labelu penodol ychwanegol a fynnir gan Erthygl 2(3) o Reoliad 1139/98 ac Erthyglau 2 a 4 o Reoliad 50/2000;

mae "paratoi" (*"preparation"*), mewn perthynas â bwyd, yn cynnwys gweithgynhyrchu ac unrhyw ffurf ar brosesu neu drin, a dehonglir "wedi'i baratoi" yn unol â hynny;

ystyr "Rheoliad 258/97" (*"Regulation 258/97"*) yw Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor (CE) Rhif 258/97 (**ch**) ynghylch bwydydd newydd a chynhwysion bwyd newydd;

(a) OJ Rhif L33, 8.2.79, t.1.

(b) OJ Rhif L.144, 29.5.86, t.38.

(c) OJ Rhif L186, 30.6.89, t.17.

(ch) OJ Rhif L43, 14, 2, 97, t.1.

*"Directive 79/112"* (*"Cyfarwyddeb 79/112"*) means Council Directive 79/112/EEC(**a**)on the approximation of the laws of the Member States relating to the labelling, presentation and advertising of foodstuffs, as amended (in so far as is relevant to these Regulations) by Council Directive 86/197/EEC(**b**) and Council Directive 89/395/EEC(**c**);

"edible ice" (*"iâ bwytadwy"*) includes ice-cream, water ice and fruit ice, whether alone or in combination, and any similar food;

"fancy confectionery product" (*"cynnyrch cyffeithiol ffansi"*) means any confectionery product in the form of a figure, animal, cigarette or egg or in any other fancy form;

"flour confectionery" (*"cyffaith blawd"*) means any cooked food which is ready for consumption without further preparation (other than reheating), of which a characterising ingredient is ground cereal, including shortbread, sponges, crumpets, muffins, macaroons, ratafias, pastry and pastry cases, and also includes meringues, petits fours and uncooked pastry and pastry cases, but does not include bread, pizzas, biscuits, crispbread, extruded flat bread or any food containing a filling which has as an ingredient any cheese, meat, offal, fish, shellfish, vegetable protein material or microbial protein material;

"the GMO particulars" (*"manylion GMO"*) means the additional specific labelling particulars required by Article 2(3) of Regulation 1139/98 and Articles 2 and 4 of Regulation 50/2000;

"novel food", "novel food ingredient" and "place on the market" have the same meaning in these Regulations as they have in Regulation 258/97;

"prepacked for direct sale" (*"wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol"*) means -

(a) in relation to a food other than flour confectionery, bread and edible ices, prepacked by a retailer for sale by that retailer on the premises where the food is packed or from a vehicle or stall used by that retailer, and

(b) in relation to flour confectionery, bread and edible ices, prepacked by a retailer for sale as in sub-paragraph (a) of this definition, or prepacked by the producer of the food for sale by that producer either on the premises where the food is produced or on other premises from which that producer conducts business under the same name as the business conducted on the premises where the food is produced,

and in this definition "premises" include any ship or aircraft;

(a) OJ No. L33, 8.2.79, p.1.

(b) OJ No. L144, 29.5.86, p.38.

(c) OJ No. L186, 30.6.89, p.17.

ystyr "Rheoliad 1139/98" (*"Regulation 1139/98"*) yw Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1139/98**(a)** (fel y'i cywirwyd(**b**)) ynghylch gorfod dangos, ar labelau bwydydd penodol a gynhyrchwyd o organeddau a addaswyd yn enetig, fanylion heblaw'r rhai y darperir ar eu cyfer yng Nghyfarwyddeb 79/112/CEE, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (CE) Rhif 49/2000 (**c**);

ystyr "Rheoliad 50/2000" (*"Regulation 50/2000"*) yw Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 50/2000(**ch**) ar labelu bwydydd a chynhwysion bwyd sy'n cynnwys ychwanegion a chyflasynnau a addaswyd yn enetig neu wedi'u cynhyrchu o organeddau a addaswyd yn enetig;

ystyr "wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol" *("prepacked for direct sale") –*

(a) mewn perthynas â bwyd heblaw cyffaith blawd, bara ac iâ bwytadwy, yw wedi'i ragbacio gan fanwerthwr er mwyn i'r manwerthwr hwnnw ei werthu ar y safle lle mae'r bwyd yn cael ei bacio neu o gerbyd neu o stondin a ddefnyddir gan y manwerthwr hwnnw, a

(b) mewn perthynas â chyffaith blawd, bara ac iâ bwytadwy, yw wedi'i ragbacio gan fanwerthwr i'w werthu fel yn is-baragraff (a) o'r diffiniad hwn, neu wedi'i ragbacio gan gynhyrchydd y bwyd er mwyn i gynhyrchydd y bwyd ei werthu naill ai ar y safle lle cynhyrchwyd y bwyd neu ar safle arall y mae'r cynhyrchydd bwyd yn cynnal ei fusnes ohono o dan yr un enw â'r busnes sy'n cael ei gynnal ar y safle lle mae'r bwyd yn cael ei gynhyrchu.

ac yn y diffiniad hwn mae "safle" yn cynnwys unrhyw long neu awyren.

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 1139/98 neu Rheoliad 50/2000 yr un ystyr yn y rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Rheoliad o dan sylw.

(3) Rhaid ystyried bod bwyd wedi'i ragbacio ar gyfer y Rheoliadau hyn

(a) os yw yn barod i'w werthu i'r prynwr terfynol neu i fasarlwyydd, a

(b) os yw

(i) wedi'i roi mewn pecyn cyn cael ei gynnig i'w werthu yn y fath ffordd ag i beidio â chaniatáu newid y bwyd, p'un ai wedi'i amgáu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn unig, heb agor neu newid y pecyn, neu

(ii) wedi'i amgáu'n gyfan gwbl mewn pecyn cyn cael ei gynnig i'w werthu a bwriedir iddo gael ei goginio heb agor y pecyn,

(a) OJ Rhif L159, 3.6.98, t.4.

(b) OJ Rhif L190, 4.7.98, t.86.

(c) OJ Rhif L6, 11.1.2000, t.13.

(ch) OJ Rhif L6, 11.1.2000, t.15.

"preparation" ("*paratoi*"), in relation to food, includes manufacture and any form of processing or treatment, and "prepared" shall be construed accordingly;

"Regulation 258/97" ("*Rheoliad 258/97*") means Regulation (EC) No. 258/97 of the European Parliament and of the Council(**a**)concerning novel foods and novel food ingredients;

"Regulation 1139/98" ("*Rheoliad 1139/98*") means Council Regulation (EC) No. 1139/98(**b**) (as corrected(**c**) concerning the compulsory indication, on the labelling of certain foodstuffs produced from genetically modified organisms, of particulars other than those provided for in Directive 79/112/EEC, as amended by Commission Regulation (EC) No. 49/2000(**d**);

"Regulation 50/2000" ("*Rheoliad 50/2000*") means Commission Regulation (EC) No. 50/2000(**e**) on the labelling of foodstuffs and food ingredients containing additives and flavourings that have been genetically modified or have been produced from genetically modified organisms;

"sell" (*"gwerthu"*) includes offer or expose for sale and have in possession for sale, and "sale" ("*gwerthu*") shall be construed accordingly.

(2) Other expressions used both in these Regulations and in Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000 have the same meaning in these regulations as they have in the Regulation concerned.

(3) Food shall be regarded as prepacked for the purposes of these Regulations if -

(a) it is ready for sale to the final consumer or to a mass caterer, and

(b) it is

(i) put into packaging before being offered for sale in such a way that the food, whether wholly or only partly enclosed, cannot be altered without opening or changing the packaging, or

(ii) wholly enclosed in packaging before being offered for sale and the food is intended to be cooked without opening the packaging,

(a) OJ No. L43, 14.2.97, p.1.

(b) OJ No. L159, 3.6.98, p.4.

(c) OJ No. L190, 4.7.98, p.86.

(d) OJ No. L6, 11.1.2000, p.13.

(e) O.J No. L6, 11.1.2000, p15.

ond nid yw bwyd i gael ei ystyried fel bwyd wedi'i ragbacio at ddibenion y Rheoliadau hyn os yw'n felysyn neu siocled sydd wedi'i lapio'n unigol ac sydd heb ei amgáu mewn unrhyw becyn ychwanegol ac nad yw wedi'i fwriadu i'w werthu fel eitem unigol.

(4) Dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif fel cyfeiriad at y rheoliad sydd â'r rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall.

**Bwyd y mae Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 yn gymwys iddo**

**Esemptiadau**

**3.**-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, ni fydd y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fwyd y deuir ag ef i mewn i Gymru o ran arall o'r Deyrnas Unedig neu o Aelod-wladwriaeth (heblaw'r Deyrnas Unedig) -

(a) os cafodd ei werthu'n gyfreithlon yn y rhan o'r Deyrnas Unedig neu yn yr Aelod-wladwriaeth y daethpwyd ag ef i Gymru ohoni,

(b) os cafodd ei gynhyrchu mewn Aelod-wladwriaeth neu os oedd yn cael ei gylchredeg yn ddirwystr yn y rhan o'r Deyrnas Unedig neu yn yr Aelod-wladwriaeth y daethpwyd ag ef i Gymru ohoni, ac

(c) os yw gofynion Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 (fel y bo'n gymwys), fel y'u darllenir yn y naill achos a'r llall gyda Chyfarwyddeb 79/112, wedi'u bodloni mewn perthynas â'r bwyd hwnnw.

(2) Ni fydd dim ym mharagraff (1) uchod yn atal gorfodi rheoliad 7(c).

(3) At ddibenion paragraff (1) uchod, mae i "cylchredeg yn ddirwystr" yr un ystyr â "free circulation" yn Erthygl 23(2) o'r Cytuniad yn sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd.

(4) Nid oes angen marcio na labelu â'r manylion GMO unrhyw fwyd wedi'i ragbacio, sydd naill ai wedi'i gynnwys mewn potel wydr ac arni farc annileadwy ac y bwriedir ei hailddefnyddio ac nad oes arni label, cylch na choler, neu y mae gan wyneb mwyaf ei becyn arwynebedd o lai na deg centimetr sgwâr.

**Dull marcio neu labelu: gofyniad cyffredinol**

**4.** Pan fydd unrhyw fwyd heblaw'r bwyd y mae rheoliad 5 yn gymwys iddo yn cael ei werthu, rhaid i'r manylion y mae Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 yn ei gwneud yn ofynnol eu marcio neu eu labelu arno ymddangos –

but food shall not be regarded as prepacked for the purposes of these Regulations if it comprises an individually wrapped sweet or chocolate which is not enclosed in any further packaging and which is not intended for sale as an individual item.

(4) Any reference in these Regulations to a numbered regulation shall, unless the context otherwise requires, be construed as a reference to the regulation so numbered in these Regulations.

**Food to which Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000 applies**

**Exemptions**

**3.**-(1) Subject to paragraph (2) below, these Regulations shall not apply in respect of any food brought into Wales from another part of the United Kingdom or a Member State (other than the United Kingdom), if -

(a) it was lawfully sold in the part of the UK or the Member State from which it is brought into Wales,

(b) it was produced in a Member State or was in free circulation in the part of the United Kingdom or the Member State from which it is brought into Wales, and

(c) the requirements of Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000 (as applicable), as read in each case with Directive 79/112, are met in respect of that food.

(2) Nothing in paragraph (1) above shall prevent the enforcement of regulation 7(c).

(3) For the purposes of paragraph (1) above, "free circulation" has the same meaning as in Article 23(2) of the Treaty establishing the European Community.

(4) Any prepacked food, either contained in an indelibly marked glass bottle intended for re-use and having no label, ring or collar, or the largest surface of whose packaging has an area of less than ten square centimetres, need not be marked or labelled with the GMO particulars.

**Manner of marking or labelling: general requirement**

**4.** When any food other than food to which regulation 5 applies is sold, the particulars with which it is required to be marked or labelled by Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000 shall appear -

(a) ar y pecyn,

(b) ar label sydd ynghlwm wrth y pecyn, neu

(c) ar label sydd i'w weld yn glir drwy'r pecyn,

ac eithrio pan werthir i unrhyw un heblaw'r prynwr terfynol, y caiff y manylion hyn fel arall ymddangos ar y dogfennau masnachol ynglŷn â'r bwyd yn unig, os oes modd gwarantu bod y dogfennau hynny sy'n cynnwys y manylion hyn i gyd, naill ai gyda'r bwyd y maent yn ymwneud ag ef neu wedi cael eu hanfon cyn i'r bwyd gael ei ddanfon, neu yr un pryd â hynny.

(a) on the packaging,

(b) on a label attached to the packaging, or

(c) on a label which is clearly visible through the packaging,

save that where the sale is otherwise than to the final consumer, such particulars may, alternatively, appear only on the commercial documents relating to the food where it can be guaranteed that such documents, containing all such particulars, either accompany the food to which they relate or were sent before, or at the same time as, delivery of the food.

**Dull marcio neu labelu: rheolau arbennig**

5.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol -

(a) bwyd sydd heb ei ragbacio;

(b) bwyd sydd wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol; ac

(c) unrhyw gynnyrch cyffeithiol ffansi sydd wedi'i lapio'n unigol ac nad yw wedi'i amgáu mewn unrhyw becyn arall ac y bwriedir ei werthu fel eitem unigol.

(2) Pan fydd unrhyw fwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cael ei werthu i'r prynwr terfynol, rhaid i'r manylion y mae Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 yn ei gwneud yn ofynnol eu marcio neu eu labelu arno ymddangos, ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (3) isod -

(a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu

(b) ar fwydlen, hysbysiad, tocyn neu label y mae'n hawdd i ddarpar brynwr ei ddirnad yn y man lle mae'n dewis y bwyd hwnnw.

(3) Pan fydd bwyd -

(a) yn fwyd y mae gofynion labelu Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 yn gymwys iddo,

(b) a hwnnw -

(i) heb ei ragbacio, neu

(ii) wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol, ac

(c) yn cael ei werthu i'r prynwr terfynol mewn safle priodol,

rhaid peidio â thrin defnyddio labelau amgen yn lle'r manylion GMO ar ei ben ei hun fel achos o dorri'r gofynion labelu hynny ac at y diben hwn defnyddir labelau amgen, pan ddangosir y manylion amgen yn unol â pharagraff (4) isod, yn lle bod y manylion y cyfeirir atynt yn Erthygl 2(3) o Reoliad 1139/98 neu yn Erthyglau 2 a 4 o Reoliad 50/2000 yn ymddangos yn y dull a bennir ym mharagraff (2)(a) neu (b) uchod.

**Manner of marking or labelling: special rules**

5.-(1) This regulation apples to -

(a) food which is not prepacked;

(b) food which is prepacked for direct sale; and

(c) any individually wrapped fancy confectionery product which is not enclosed in any further packaging and which is intended for sale as a single item.

(2) When any food to which this regulation applies is sold to the final consumer, the particulars with which it is required to be marked or labelled by Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000 shall, except as provided in paragraph (3) below, appear -

(a) on a label attached to the food, or

(b) on a menu, notice, ticket or label which is readily discernible by an intending purchaser at the place where the intending purchaser chooses that food.

(3) In any case where food -

(a) is food to which the labelling requirements of Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000 apply,

(b) is-

(i) not prepacked, or

(ii) prepacked for direct sale, and

(c) is sold to the final consumer at appropriate premises,

use of alternative labelling in place of the GMO particulars shall not alone be treated as a contravention of those labelling requirements and for this purpose alternative labelling is used where, instead of the particulars referred to in Article 2(3) of Regulation 1139/98 or in Articles 2 and 4 of Regulation 50/2000 appearing in the manner specified in paragraph (2)(a) or (b) above, alternative particulars are displayed in accordance with paragraph (4) below.

(4) Dangosir manylion amgen yn unol â'r paragraff hwn ynglŷn ag unrhyw fwyd y cyfeirir ato ym mharagraff (3) uchod os gwelir ar fwydlen, hysbysiad, tocyn neu label y mae'n hawdd i ddarpar brynwr ei ddirnad ac sydd wedi'i leoli yn y man ar y safle lle mae'n dewis y bwyd hwnnw -

(a) yn achos bwyd y mae gofynion labelu Rheoliad 1139/98 yn gymwys iddo, wybodaeth i'r perwyl bod rhywfaint o'r bwyd sy'n cael ei werthu ar y safle hwnnw yn cynnwys cynhwysion sydd wedi'u cynhyrchu o ffa soia neu indrawn a addaswyd yn enetig, neu'r ddau, yn ôl fel y digwydd, a bod gwybodaeth bellach ar gael oddi wrth y staff; a

(b) yn achos bwyd y mae gofynion labelu Rheoliad 50/2000 yn gymwys iddo, wybodaeth i'r perwyl y bod rhywfaint o'r bwyd sy'n cael ei werthu ar y safle hwnnw yn cynnwys ychwanegion neu gyflasynnau, neu'r ddau, yn ôl fel y digwydd, sydd wedi'u cynhyrchu o organedd a addaswyd yn enetig, a bod gwybodaeth bellach ar gael oddi wrth y staff.

(5) Yn y rheoliad hwn, mae "safle" yn cynnwys unrhyw long neu awyren ac ystyr "safle priodol" yw safle -

(a) lle mae'r staff yn rhoi eglurhad ar gais darpar brynwr ynghylch a yw -

(i) bwyd penodol sy'n cael ei werthu ar y safle hwnnw, heblaw bwyd sy'n dod o fewn Erthygl 1(2) neu 2(2) o Reoliad 1139/98, yn cael ei gynhyrchu yn gyfan gwbl neu'n rhannol o gynnyrch a addaswyd yn enetig y cyfeirir ato yn Erthygl 1(1) o'r Rheoliad hwnnw, a

(ii) bwyd penodol sy'n cael ei werthu ar y safle hwnnw yn cynnwys ychwanegion neu gyflasynnau a gynhyrchwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o organedd a addaswyd yn enetig, a

(b) lle mae gweithdrefn sefydledig ar y safle hwnnw ar gyfer rhoi gwybod yn gyson i'r staff ynglŷn â'r wybodaeth honno.

(6) Pan fydd unrhyw fwyd y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo yn cael ei werthu heblaw i'r prynwr terfynol, rhaid i'r manylion y mae Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 yn ei gwneud yn ofynnol eu marcio neu eu labelu arno ymddangos -

(4) Alternative particulars are displayed in accordance with this paragraph in relation to any food referred to in paragraph (3) above if there appears on a menu, notice, ticket or label which is readily discernible by an intending purchaser and which is located at the place at the premises where the intending purchaser chooses that food -

(a) in the case of food to which the labelling requirements of Regulation 1139/98 apply, indications to the effect that some of the food sold at those premises contains ingredients produced from genetically modified soya beans or maize, or both, as the case may be, and that further information is available from the staff; and

(b) in the case of food to which the labelling requirements of Regulation 50/2000 apply, indications to the effect that some of the food sold at those premises contains additives or flavourings, or both, as the case may be, produced from a genetically modified organism, and that further information is available from the staff.

(5) In this regulation, "premises" includes any ship or aircraft and "appropriate premises" means premises where -

(a) the staff provide clarification at the request of an intending purchaser as to whether -

(i) particular food sold at those premises, other than food falling within Article 1(2) or 2(2) of Regulation 1139/98, is produced in whole or in part from a genetically modified product referred to in Article 1(1) of that Regulation, and

(ii) particular food sold at those premises contains additives or flavourings produced in whole or in part from a genetically modified organism, and

(b) there is an established procedure at those premises for keeping staff informed of that information.

(6) When any food to which this regulation applies is sold otherwise than to the final consumer, the particulars with which it is required to be marked or labelled by Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000 shall appear -

(a) ar label sydd ynghlwm wrth y bwyd, neu

(b) ar docyn neu hysbysiad y mae'n hawdd i ddarpar brynwr ei ddirnad yn y man lle mae'n dewis y bwyd, neu

(c) mewn dogfennau masnachol ynglŷn â'r bwyd lle gellir gwarantu bod y dogfennau hynny naill ai gyda'r bwyd y maent yn ymwneud ag ef neu wedi cael eu hanfon cyn i'r bwyd gael ei anfon, neu yr un pryd â hynny.

**Eglurder y marcio neu'r labelu**

6.-(1) Rhaid i'r manylion y mae Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 yn ei gwneud yn ofynnol eu marcio neu eu labelu ar fwyd, neu sy'n ymddangos ar fwydlen, hysbysiad, tocyn neu label yn unol â'r Rheoliadau hyn, fod yn hawdd i'w deall, yn hollol ddarllenadwy ac yn annileadwy a, phan fydd bwyd yn cael ei werthu i'r prynwr terfynol, rhaid i'r manylion a enwyd gael eu marcio mewn man amlwg mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd i'w gweld.

(2) Rhaid peidio â chuddio, tywyllu neu ymyrryd â'r manylion hynny ag unrhyw fater ysgrifenedig neu ddarluniadol arall.

(3) Rhaid peidio â chymryd bod paragraff (1) uchod yn atal rhoi manylion gan fasarlwywyr, ynglŷn â bwydydd y mae eu rhywogaeth a'u math yn cael eu newid yn rheolaidd, drwy gyfrwng dros dro (gan gynnwys defnyddio sialc ar fwrdd du).

**CYFFREDINOL**

**Tramgwyddau a chosbau**

7. Bydd unrhyw berson -

(a) sy'n gwerthu unrhyw fwyd y mae gofynion labelu Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 yn gymwys iddo ac nad yw wedi'i farcio neu wedi'i labelu â'r manylion GMO, ac eithrio yn achos unrhyw fwyd y mae rheoliad 5(3) yn gymwys iddo ac y mae manylion amgen yn cael eu dangos ynglŷn ag ef yn unol â rheoliad 5(4),

(b) sy'n gwerthu unrhyw fwyd nad yw wedi'i farcio neu wedi'i labelu yn unol â rheoliad 4, 5 neu 6, neu

(c) sy'n rhoi ar y farchnad unrhyw fwyd newydd neu gynhwysyn bwyd newydd nad yw'r gofynion ychwanegol ynglŷn â hwy mewn perthynas â gwybodaeth i fwytawyr a nodir yn Erthygl 8(1) o Rheoliad 258/97 wedi'u bodloni,

(a) on a label attached to the food, or

(b) on a ticket or notice which is readily discernible by the intending purchaser at the place where the intending purchaser chooses the food, or

(c) in commercial documents relating to the food where it can be guaranteed that such documents either accompany the food to which they relate or were sent before, or at the same time as, delivery of the food.

**Intelligibility of marking or labelling**

6.-(1) The particulars with which a food is required to be marked or labelled by Regulation 1139/98 or by Regulation 50/2000, or which appear on a menu, notice, ticket or label pursuant to these Regulations, shall be easy to understand, clearly legible and indelible and, when a food is sold to the final consumer, the said particulars shall be marked in a conspicuous place in such a way as to be easily visible.

(2) Such particulars shall not in any way be hidden, obscured or interrupted by any other written or pictorial matter.

(3) Paragraph (1) above shall not be taken to preclude the giving of such particulars at mass caterers, in respect of foods the variety and type of which are changed regularly, by means of temporary media (including the use of chalk on a blackboard).

**GENERAL**

**Offences and penalties**

7. Any person who -

(a) sells any food to which the labelling requirements of Regulation 1139/98 or of Regulation 50/2000 apply which is not marked or labelled with the GMO particulars, except in the case of any food to which regulation 5(3) applies and in respect of which alternative particulars are displayed in accordance with regulation 5(4),

(b) sells any food which is not marked or labelled in accordance with regulation 4, 5 or 6, or

(c) places on the market any novel food or novel food ingredient in respect of which the additional requirements relating to consumer information set out in Article 8(1) of Regulation 258/97 have not been met,

yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol o'i gollfarnu'n ddiannod.

**Gorfodi**

**8.**-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal a'r awdurdod hwnnw fydd yr awdurdod cymwys yn ei ardal at ddibenion ail baragraff Erthygl 2(2)(b) o Reoliad 1139/98.

(2) Rhaid i bob awdurdod iechyd porthladd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn yn ei ardal mewn perthynas â bwyd sydd wedi'i fewnforio a'r awdurdod hwnnw fydd yr awdurdod cymwys yn ei ardal mewn perthynas â'r bwyd hwnnw at ddibenion ail baragraff Erthygl 2(2)(b) o Reoliad 1139/98.

**Amddiffyniad mewn perthynas ag allforion**

**9.** Mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, bydd yn amddiffyniad i'r person a gyhuddir brofi -

(a)bod y bwyd yr honnir bod y tramgwydd wedi'i gyflawni mewn perthynas ag ef wedi'i fwriadu i'w allforio i wlad â deddfwriaeth sy'n cyfateb i'r Rheoliadau hyn a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno; a

(b) yn achos allforio i Aelod-wladwriaeth fwyd y mae Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000 yn gymwys iddo, fod y ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â darpariaethau Rheoliad 1139/98 neu Reoliad 50/2000, fel y bo'n briodol, fel y'u darllenir gyda Chyfarwyddeb 79/112.

**Cymhwyso darpariaethau amrywiol y Ddeddf**

**10.**-(1) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu at y Rhan ohoni at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn -

adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc);

adran 3 (rhagdybio bod bwyd wedi'i fwriadu i bobl ei fwyta);

adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

adran 21 (amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 8, 14 neu 15;

adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

adran 32 (pwerau mynediad);

shall be guilty of an offence and shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

**Enforcement**

**8.**-(1) Subject to paragraph (2) below, each food authority shall enforce and execute these Regulations in its area and be the competent authority in its area for the purposes of the second paragraph of Article 2(2)(b) of Regulation 1139/98.

(2) Each port health authority shall enforce and execute these Regulations in its district in relation to imported food and be the competent authority in its district in relation to such food for the purposes of the second paragraph of Article 2(2)(b) of Regulation 1139/98.

**Defence in relation to exports**

**9.** In any proceedings for an offence under these Regulations, it shall be a defence for the person charged to prove-

(a) that the food in respect of which the offence is alleged to have been committed was intended for export to a country which has legislation analogous to these Regulations and that it complies with that legislation; and

(b) in the case of export to a Member State of food to which Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000 applies, that the legislation complies with the provisions of Regulation 1139/98 or Regulation 50/2000, as appropriate, as read with Directive 79/112.

**Application of various provisions of the Act**

**10.**-(1) The following provisions of the Act shall apply for the purposes of these Regulations and, unless the context otherwise requires, any reference in those provisions to the Act or Part thereof shall be construed for the purposes of these Regulations as a reference to these Regulations -

section 2 (extended meaning of "sale" etc);

section 3 (presumption that food is intended for human consumption);

section 20 (offences due to fault of another person);

section 21 (defence of due diligence) as it applies for the purposes of section 8, 14 or 15;

section 30(8) (which relates to documentary evidence);

section 32 (powers of entry);

adran 35(1) i (3) (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) a (2) fel y'u cymhwysir gan baragraff (3) isod; ac

adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol).

(2) Wrth gymhwyso adran 32 o'r Ddeddf (pwerau mynediad) at ddibenion y Rheoliadau hyn, dehonglir y cyfeiriad yn is-adran (1)(a) i'r Ddeddf fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at Reoliad 258/97, Rheoliad 1139/98 a Rheoliad 50/2000.

(3) Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y Rheoliadau hyn, fel y'u darllenir gyda Rheoliad 258/97, Rheoliad 1139/98 a Rheoliad 50/2000 -

adran 33 (rhwystro etc. swyddogion)

adran 44 (diogelu swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

**Diwygiadau canlyniadol**

**11.**-(1) Diwygir Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**a**) (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru) yn unol â pharagraffau (2) i (11) isod.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), hepgorir diffiniadau "the GMO particulars" a "Regulation 1139/98".

(3) Yn rheoliad 3(1)(iv) (esemptiadau), yn lle'r geiriau "Directive 94/54 and Regulation 1139/98" rhoddir y geiriau "and Directive 94/54".

(4) Yn rheoliad 26 (mân becynnau a photeli penodol sydd wedi'u marcio annileadwy) -

(a) ym mharagraff (1), hepgorir is-baragraff (b) a'r gair "or" o'i flaen; a

(b) ym mharagraff (3A), hepgorir y geiriau "and the GMO particulars".

(5) Yn rheoliad 35 (gofyniad cyffredinol ynghylch dull marcio neu labelu), hepgorir y geiriau "or by Regulation 1139/98".

(6) Yn rheoliad 36 (dull marcio neu labelu yn achos bwyd y mae rheoliad 23 neu 27 yn gymwys iddo) -

(a) O.S. 1996/1499; O.S. 1998/1398, 1999/747, 1483 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.

section 35(1) to (3) (punishment of offences) in so far as it relates to offences under section 33(1) and (2) as applied by paragraph (3) below; and

section 36 (offences by bodies corporate).

(2) In the application of section 32 of the Act (powers of entry) for the purposes of these Regulations, the reference in subsection (1)(a) to the Act shall be construed as including a reference to Regulation 258/97, Regulation 1139/98 and Regulation 50/2000.

(3) The following provisions of the Act shall apply for the purposes of these Regulations and, unless the context otherwise requires, any reference in those provisions to the Act shall be construed for the purposes of these Regulations as including a reference to these Regulations, as read with Regulation 258/97, Regulation 1139/98 and Regulation 50/2000 -

section 33 (obstruction etc. of officers);

section 44 (protection of officers acting in good faith).

**Consequential amendments**

**11.**-(1) The Food Labelling Regulations 1996(**a**) shall be amended (in so far as they apply to Wales) in accordance with paragraphs (2) to (11) below.

(2) In regulation 2(1) (interpretation), the definitions of "the GMO particulars" and "Regulation 1139/98" shall be omitted.

(3) In regulation 3(1)(iv) (exemptions), there shall be substituted for the words ", Directive 94/54 and Regulation 1139/98" the words "and Directive 94/54".

(4) In regulation 26 (small packages and certain indelibly marked bottles) -

(a) in paragraph (1), sub-paragraph (b) and the word "or" preceding it shall be omitted; and

(b) in paragraph (3A), the words "and the GMO particulars" shall be omitted.

(5) In regulation 35 (general requirement as to manner of marking or labelling), the words "or by Regulation 1139/98" shall be omitted.

(6) In regulation 36 (manner of marking or labelling in the case of food to which regulation 23 or 27 applies) -

(a) S.I. 1996/1499; the relevant amending instruments are S.I. 1998/1398, 1999/747, 1483.

(a) ym mharagraff (1), hepgorir y geiriau "or by Regulation 1139/98" ac "or (4A)"; a

(b) hepgorir paragraffau (4A) i (4C).

(7) Yn rheoliad 38(1) (eglurder marcio neu labelu), hepgorir y geiriau "or by Regulation 1139/98".

(8) Yn rheoliad 44(1) (tramgwyddau a chosbau) hepgorir is-baragraff (f);

(9) Yn rheoliad 47(b) (amddiffyniad ynglŷn ag allforion), yn lle'r geiriau ", Directive 94/54 and Regulation 1139/98" rhoddir y geiriau "and Directive 94/54".

(10) Yn rheoliad 48 (cymhwyso darpariaethau amrywiol Deddf Diogelwch Bwyd 1990), hepgorir paragraff (2).

(11) Yn rheoliad 50 (darpariaeth drosiannol), hepgorir paragraffau (5) i (7).

**12**. Diwygir Rheoliadau Bwydydd Newydd a Chynhwysion Bwyd Newydd 1997(**a**) (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru), drwy hepgor paragraff 7 yn yr Atodlen (darpariaethau Cymunedol penodedig).

**Darpariaethau trosiannol**

**13**.-(1) Mewn unrhyw achos am dramgwydd -

(a) o dan reoliad 7(a), neu

(b) o dan reoliad 7(b), fel y'i darllenir gyda rheoliad 5 neu 6,

mewn perthynas â'r manylion y mae Rheoliad 1139/98 yn ei gwneud yn ofynnol eu marcio neu eu labelu ar unrhyw fwyd perthnasol, bydd yn amddiffyniad profi -

(i) yn achos bwyd a werthwyd i'r prynwr terfynol, ei fod wedi'i baratoi gan ddefnyddio cynhwysyn a oedd ar werth cyn 1 Medi 1998, neu

(ii) yn achos bwyd a werthwyd i fasarlwyydd, ei fod wedi'i baratoi gan ddefnyddio cynhwysyn a oedd ar werth cyn 10 Ebrill 2000.

(2) Mewn unrhyw achos am dramgwydd -

(a) o dan reoliad 7(a), neu

(b) o dan reoliad 7(b), fel y'i darllenir gyda rheoliad 5 neu 6,

(a) O.S. 1997/1335; y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) in paragraph (1), the words "or by Regulation 1139/98" and "or (4A)" shall be omitted; and

(b) paragraphs (4A) to (4C) shall be omitted.

(7) In regulation 38(1) (intelligibility of marking or labelling), the words "or by Regulation 1139/98" shall be omitted.

(8) In regulation 44(1) (offences and penalties), sub-paragraph (f) shall be omitted;

(9) In regulation 47(b) (defence in relation to exports), there shall be substituted for the words", Directive 94/54 and Regulation 1139/98" the words "and Directive 94/54".

(10) In regulation 48 (application of various provisions of the Food Safety Act 1990), paragraph (2) shall be omitted.

(11) In regulation 50 (transitional provision), paragraphs (5) to (7) shall be omitted.

**12**. The Novel Foods and Novel Food Ingredients Regulations 1997(**a**)shall be amended (in so far as they apply to Wales), by omitting paragraph 7 in the Schedule (specified Community provisions).

**Transitional provisions**

**13**.-(1) In any proceedings for an offence under -

(a) regulation 7(a), or

(b) regulation 7(b), as read with regulation 5 or 6,

in relation to the particulars with which any relevant food is required to be marked or labelled by Regulation 1139/98, it shall be a defence to prove that -

(i) in the case of food sold to the final consumer, it was prepared using an ingredient which was on sale before 1st September 1998, or

(ii) in the case of food sold to a mass caterer, it was prepared using an ingredient which was on sale before 10th April 2000.

(2) In any proceedings for an offence under -

(a) regulation 7(a), or

(b) regulation 7(b), as read with regulation 5 or 6,

(a) S.I. 1997/1335; to which there are amendments not relevant to these Regulations.

mewn perthynas â'r manylion y mae Rheoliad 50/2000 yn ei gwneud yn ofynnol eu marcio neu eu labelu ar unrhyw fwyd perthnasol , bydd yn amddiffyniad profi bod y bwyd wedi'i werthu i'r prynwr terfynol neu i fasarlwyydd a'i fod wedi'i baratoi gan ddefnyddio cynhwysyn a oedd ar werth cyn 10 Ebrill 2000.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2) uchod, ystyr "bwyd perthnasol" yw bwyd -

(i) nad yw wedi'i ragbacio, neu

(ii) sydd wedi'i ragbacio i'w werthu'n uniongyrchol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

14 Gorffennaf 2000

*Jane Davidson*

Dirprwy Lywydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

in relation to the particulars with which any relevant food or is required to be marked or labelled by Regulation 50/2000, it shall be a defence to prove that the food was sold to the final consumer or to a mass caterer and was prepared using an ingredient which was on sale before 10th April 2000.

(3) For the purposes of paragraphs (1) and (2) above, "relevant food" means food which is -

(i) not prepacked, or

(ii) prepacked for direct sale.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

14th July 2000

Deputy Presiding Officer of the National Assembly for Wales

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1925 (Cy. 134 )

## BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig a Bwydydd Newydd (Labelu) (Cymru) 2000

National Assembly for Wales

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1925 (W. 134 )

## FOOD, WALES

## The Genetically Modified and Novel Foods (Labelling)(Wales) Regulations 2000

WELLCOME LIBRARY
General Collections
P
6540

©® Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg EI Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090115-0

9 780110 901152

£3.00

W/29/08/00 ON